



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1SN

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 24) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n bwriadu gosod y rhain a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 22 Rhagfyr 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl ei osod. Mae copïau o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf hefyd yn eich hysbysu y bydd yr offeryn hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Rheoliadau").

Daw'r Rheoliadau i rym ar 22 Rhagfyr 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl eu gosod. Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd.

Cyn cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, mae rheoliadau 8 a 9A o'r prif Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sydd wedi cael cysylltiad agos â pherson sydd â'r coronafeirws y gwyddys neu yr amheuir ei fod yn amrywiolyn Omicron, hunanynysu am gyfnod o 10 diwrnod. Nid yw'r eithriadau sydd fel arfer yn gymwys i gysylltiadau agos sy'n bodloni amodau penodol (er enghraifft, cysylltiadau agos sydd wedi'u brechu) yn cael effaith.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Rheoliadau i ddileu'r gwahaniaeth rhwng cysylltiadau agos achosion y gwyddys neu yr amheuir eu bod yn Omicron, a chysylltiadau agos pob

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

achos positif arall. Ni fydd rhaid i unrhyw gysylltiad agos, ni waeth pa amrywiolyn o'r coronafeirws sydd o dan sylw, hunanyngysu os yw'n blentyn, os yw wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y cysylltiad agos, os yw'n cymryd rhan mewn treial clinigol yn y Deyrnas Unedig, neu os yw'n cymryd rhan mewn cynllun profi.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan fo person yn dod o fewn y categorïau hyn ond yr oedd o dan ofyniad i ynysu yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 22 Rhagfyr 2021 o ganlyniad i gael cysylltiad agos ag achos y gwyddys neu yr amheuir ei fod yn Omicron, fod y gofyniad i ynysu'n dod i ben ar ddechrau'r diwrnod ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen y diwygiadau i ddileu'r gofyniad hwn mewn ymateb i achosion cynyddol o Omicron a'r tebygolrwydd mai dyma fydd yr amrywiolyn mwyaf cyffredin yn y dyfodol agos. Nid yw'r rheoliadau felly'n gymesur mwyach â'r risg a berir a'r rheolaeth glinigol o achosion o Omicron.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â'r Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd, bydd modd hefyd i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag y bo modd er mwyn a. lliniaru effeithiau absenoldebau estynedig staff ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru; b. cysoni'r sefyllfa yng Nghymru â'r sefyllfa a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn lliniaru unrhyw drafferthion neu ddriswch ar y ffin; c. symleiddio ein rheolau hunanyngysu i gynorthwyo negeseuon cyhoeddus a chynorthwyo cydymffurfiaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**